# Cynigion a Gwelliannau i'w Trafod ar 10 Mehefin 2003

## Cynnig a gyflwynwyd ar 3 Mehefin 2003

**Dadl Plaid Leiafrifol - NDM1497 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. yn cydnabod yr argyfwng ariannu yn y sector cartrefi gofal sydd wedi arwain at y nifer uchaf erioed o achosion o oedi wrth anfon cleifion adref o welyau ysbytai'r GIG, ac

2. yn galw ar y Llywodraeth i ddarparu mwy o adnoddau er mwyn sicrhau cynnydd sylweddol yn lefel y ffioedd sy'n daladwy am bob gwely yn y sector gofal.

## Cynnig a gyflwynwyd ar 30 Mai 2003

**NDM1495 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Gan weithredu o dan Reol Sefydlog 23.10

Yn cymeradwyo'r gorchymyn drafft, The Home Grown Cereals Authority (Rate of Levy) Order 2003, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Mai 2003.

## Cynnig a gyflwynwyd ar 7 Mai 2003

**NDM1473 Mick Bates (Sir Drefaldwyn)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ailddatgan safbwynt y llywodraeth flaenorol y dylid cael uchafswm o 25 ar gyfer maint dosbarthiadau ac yn annog y llywodraeth newydd i gyflwyno cynigion er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwn.

## Gwelliannau a gyflwynwyd ar 13 Mai 2003

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i gynigion:

**NDM1473**

**David Davies (Mynwy)**

Dileu popeth ar ôl 'dosbarthiadau' gan roi yn ei le 'ac felly mae'n annog y Llywodraeth newydd i roi'r gorau i'w chynlluniau costus i gynnig brecwast i ddisgyblion, a allai olygu y bydd oedi cyn cyflawni'r amcan clodwiw hwn' .

## Gwelliannau a gyflwynwyd ar 5 Mehefin 2003

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i gynigion:

**NDM1473**

**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ar ôl 'ymrwymiad hwn' rhoi 'gan gynnwys cynigion am weithredu brys i alluogi Awdurdodau Addysg Lleol i ddefnyddio gostyngiad yn niferoedd y disgyblion fel cyfle i leihau maint dosbarthiadau, ac felly osgoi diswyddiadau gorfodol ymhlith athrawon.

**2. Karen Sinclair (De Clwyd);**

Dileu 'yn ailddatgan' ac yn ei le rhoi 'yn rhoi ystyriaeth ofalus i'

**3. Karen Sinclair (De Clwyd);**

Dileu popeth ar ôl 'ailddatgan' ac yn ei le rhoi 'ymrwymiad y llywodraeth flaenorol i ehangu'r broses o leihau maint dosbarthiadau i blant pump, chwech a saith oed i 30 a llai, gyda golwg ar gyrraedd y targed o leihau maint dosbarthiadau'r holl ysgolion cynradd i 25 neu lai o fewn ail dymor y Cynulliad Cenedlaethol, ac yn cymryd camau cynnar i werthuso costau a manteision cwrdd â'r ymrwymiad hwn'.

**NDM1497**

**1. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'yn credu bod angen partneriaeth effeithiol rhwng iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a'r sectorau annibynnol a phreifat er mwyn gwella'r ddarpariaeth gofal.'

**2. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ym mhwynt bwled 1 rhwng 'sector cartrefi gofal' a 'sydd' ychwaneger:

'yn un o'r ffactorau'

**3. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 1 ac ailrifo'r gweddill fel y bo'n briodol:

'Yn nodi y nifer fawr o bobl sy'n wynebu oedi wrth adael yr ysbyty oherwydd yr angen am dalu ffioedd.'

**4. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwaneger pwynt newydd ar ôl pwynt 1 gan ailrifo fel y bo'n briodol:

'Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i ymestyn gofal personol di-dâl fwy fyth i'r rhai sydd ei angen er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r oedi wrth drosglwyddo gofal.'

**5. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn cydnabod pa mor bwysig yw bod cleifion yn cael cyfle i ddewis.'

**6. Karen Sinclair (De Clwyd)**

Ym mhwynt 1 dileu 'argyfwng ariannu yn' a rhoi ' anawsterau a wynebwyd gan' yn ei le

**7. Karen Sinclair (De Clwyd)**

Dileu popeth ar ôl ‘gofal’.

**8. Karen Sinclair (De Clwyd)**

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod comisiynu gofal cymdeithasol, penderfyniadau lleol ynglyn â chydbwysedd y ddarpariaeth gofal cymdeithasol a negodi lefelau ffïoedd yn gyfrifoldebau statudol llywodraeth leol.

**9. Karen Sinclair (De Clwyd)**

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cefnogi Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei hymgais i fynd i’r afael â’r system gyfan er mwyn cadw pobl rhag gorfod mynd i’r ysbyty neu i gartref gofal yn ddiangen, a mynd i’r afael â’r oedi wrth drosglwyddo gofal ym mhob sector gofal cymunedol a’r GIG.